

CYPE(6)-13-22 - Papur i'w nodi 8

Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Minister for Education and Welsh Language



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JMEWL/2026/22

Jayne Bryant AS

Cadeirydd – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

SeneddPlant@senedd.wales

13 Mehefin 2022

Annwyl Jayne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Mai ynghylch bwlio hiliol mewn ysgolion. Roedd eich llythyr yn codi nifer o gwestiynau, ac ymatebaf iddynt fel a ganlyn.

Cymorth i ysgolion fynd i'r afael â bwlio ar sail hil

Dylai pob un o'n lleoliadau addysg yng Nghymru fod yn amgylchedd cynhwysol a diddorol lle mae lles pob person yn cael ei ystyried ac mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu derbyn, yn ddiogel ac yn barod i ddysgu.

Mae cyfres o ganllawiau Llywodraeth Cymru '[Hawliau, Parch, Cydraddoldeb](#)' yn darparu canllawiau statudol i gyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, ac awdurdodau lleol i helpu i fynd i'r afael â bwlio ac aflonyddu mewn lleoliadau addysg yng Nghymru, ac atal bwlio ac aflonyddu arnynt. Mae hyn yn cynnwys bwlio ac aflonyddu ar sail hil. Rydym hefyd yn darparu gwybodaeth a thafleenni ffeithiau ar hiliaeth a bwlio ac aflonyddu hiliol ar Hwb.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu hyfforddiant ar gyfer arweinwyr ysgolion, ymarferwyr a llywodraethwyr sy'n canolbwyntio ar wrth-fwlio, ac sy'n gweithredu ein canllawiau gwrth-fwlio. Ar hyn o bryd, caiff hyn ei gyflawni gan ddwy elusen gwrth-fwlio flaenllaw – Anti-Bullying Alliance a Kidscape. Mae cael mynediad i'r hyfforddiant hwn yn wirfoddol, ac yr wyf wedi bod yn glir i annog pob ysgol i ymgysylltu â'r hyfforddiant a'r dysgu hwn.

Mae Awdurdodau Lleol yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gefnogi ysgolion i fynd i'r afael â hiliaeth a bwlio ar sail hil mewn ysgolion. Mae llawer yn cael hyfforddiant ac adnoddau drwy sefydliadau fel Show Racism the Red Card, yn ogystal â darparu eu canllawiau gwrth-fwlio eu hunain i ysgolion.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ariannu Cymorth i Ddiodefwyr Cymru i redeg Canolfan Cymorth Casineb Cymru, sy'n rhoi cymorth i bawb sy'n dioddef casineb yng Nghymru, gan gynnwys plant a phobl ifanc, yn ogystal â darparu hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ar y mater hwn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cymorth i ysgolion weithredu'r canllawiau gwrth-fwlio wedi'u diweddarau

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ar 7 Mehefin, yn nodi nifer o nodau a champau gweithredu i ymgorffori diwylliant gwrth-hiliol mewn ysgolion i wneud 'newidiadau ystyrlon a mesuradwy' i fywydau pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae'r cynllun hefyd yn dwyn ynghyd gwaith ar draws addysg, gan gynnwys diweddarau canllawiau gwrth-fwlio statudol, i adlewyrchu ein gweledigaeth ar gyfer Cymru wirioneddol wrth-hiliol.

Er y byddwn yn cyflawni ein hymrwymiad i ddiweddarau ein canllawiau gwrth-fwlio erbyn dechrau'r flwyddyn academaidd nesaf, byddwn hefyd yn adeiladu ar y canllawiau hyn ymhellach dros y misoedd nesaf. Fe fyddwn yn gweithio gyda Chomisiynydd Plant Cymru dros y misoedd nesaf i ymgysylltu â plant a phobl ifanc, yn ogystal â'n hathrawon a'n hymarferwyr addysg.

Disgwylir i'r hyfforddiant presennol a ddarperir gan yr Anti-Bullying Alliance a Kidscape ddod i ben ym mis Gorffennaf 2022. Er bod darpariaeth newydd wedi'i chynllunio'n wreiddiol ar gyfer mis Medi 2022, mae fy swyddogion bellach yn y broses o ystyried sut y byddai'r ddarpariaeth hon yn cyd-fynd orau â'n gwaith tymor hir, yng ngoleuni chyfathrebu pellach â Chomisiynydd Plant Cymru.

Felly, disgwyliaf i'r ddarpariaeth hyfforddiant bresennol sydd gennym barhau tan fis Mawrth 2023, a fydd, wrth gwrs, yn gweithredu'r diwygiadau presennol i'r canllawiau. Yna caiff hyfforddiant i ymarferwyr yn y dyfodol ei ddatblygu, yn unol â'n canllawiau a'n hadnoddau yn y dyfodol sy'n canolbwyntio ar wrth-fwlio a gwrth-hiliaeth. Byddwn yn sicrhau y bydd y ddarpariaeth hon yn addas ar gyfer anghenion athrawon ac ymarferwyr, ac yn gweithio ochr yn ochr â'r rhaglen Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-Hiliol ('DARPL').

Anogaeth i gael mynediad i'r hyfforddiant gwrth-fwlio

Mae hyfforddiant gwrth-fwlio Llywodraeth Cymru ar gyfer arweinwyr ysgolion, a ddarperir gan Kidscape, wedi bod ar waith ers mis Tachwedd 2020. Ers mis Gorffennaf 2021, mae'r hyfforddiant yma wedi'i ategu gan hyfforddiant gwrth-fwlio i lywodraethwyr ysgolion, a ddarperir gan Anti-Bullying Alliance a Kidscape.

Ers mis Tachwedd 2020, mae cynrychiolwyr 129 o ysgolion yng Nghymru wedi mynychu'r gweithdai ar gyfer arweinwyr ysgolion. Ers mis Gorffennaf 2021, mae cynrychiolwyr 82 o ysgolion yng Nghymru wedi mynychu'r hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr ysgolion.

Yn ogystal, yn 2020 a 2021, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid i'r Anti-Bullying Alliance i gyflwyno Wythnos Gwrth-fwlio ledled Cymru, a gynhelir ym mis Tachwedd. Yn 2021, cymerodd 91% o ysgolion yng Nghymru ran yn ystod Wythnos Gwrth-fwlio, a chafwyd dros 4000 o lawrlwythiadau o'r pecynnau ysgolion cynradd ac uwchradd – cynnydd o 600% ar 2020 (641 o lawrlwythiadau).

Anogir ymarferwyr, arweinwyr ysgolion a llywodraethwyr i fanteisio ar yr hyfforddiant gwrth-fwlio presennol a'i fynychu drwy amrywiaeth o wahanol lwybrau.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyhoeddusrwydd rheolaidd i gyfleoedd hyfforddi drwy ein cylchlythyr addysgol, Dysg. Mae fy swyddogion hefyd yn rhoi cyhoeddusrwydd rheolaidd i'r gweithdai i'n rhwydwaith o lywodraethwyr ac arweinwyr ysgolion o fewn awdurdodau lleol.

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu adnoddau pellach, canllawiau a hyfforddiant newydd i ysgolion, bydd fy swyddogion yn ystyried sut y gallwn gryfhau ein cyfathrebu er mwyn annog pob ysgol yng Nghymru i ymgymryd â'r hyfforddiant pwysig hwn.

Casglu data

Ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth Cymru yn casglu data ar achosion o fwlio ac aflonyddu, gan gynnwys bwlio ar sail hil, ar lefel genedlaethol. Nid yw ein canllawiau gwrth-fwlio yn mandadu ysgolion ac awdurdodau lleol i gasglu data, ond mae'n nodi ein disgwyliad clir y dylai lleoliadau addysg a gynhelir gasglu'r data hwn, ac y dylid ei ddadansoddi yn ôl y math o achos.

Yn ymarferol, mae awdurdodau lleol Cymru yn casglu data ar fwlio ac aflonyddu, ac mae hyn yn cael ei ddadansoddi yn ôl math o achos neu ddigwyddiad. Fodd bynnag, mae cofnodi'r achosion yma yn anghyson iawn, o ran lefel y manylder wrth adrodd a chasglu data, yn ogystal â'r systemau sy'n cael eu defnyddio gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

Mae ein Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-Hiliol yn cynnwys y camau canlynol:

Ei gwneud yn ofynnol i adrodd am ddigwyddiadau hiliol ac aflonyddu mewn ysgolion a cholegau drwy gasglu data'n gryfach, sut yr ymdriniwyd â hwy, y camau a gymerwyd mewn ymateb, ac a gafodd y digwyddiad ei ddatrys yn llwyddiannus i'r dioddefwr.

Felly, rydym bellach yn ystyried system o adrodd a chasglu data ledled Cymru a fydd yn casglu data'n benodol mewn perthynas â bwlio ac aflonyddu, gan gynnwys ar sail nodweddion gwarchoddedig. Bydd y system newydd hon yn ein helpu i bontio'r bwlch presennol mewn data a chael dealltwriaeth ddyfnach o brofiadau byw dysgwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Yn gywir



Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language